# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2016

Amser: 08.30 - 09.02

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn y busnes a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 16 Mawrth 2016 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4): Bil Menter

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ynghylch y Bil Menter.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i nodi'r Memorandwm a'r ffaith bod y Llywodraeth yn bwriadu trefnu dadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ddydd Mawrth 15 Mawrth. Oherwydd y cyfyngiadau amser, cytunodd y Rheolwyr Busnes na ddylid cyfeirio'r Memorandwm at un o bwyllgorau'r Cynulliad i graffu arno ond y dylai'r Llywydd ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Busnes (fel y pwyllgor mwyaf perthnasol), gan anfon copi at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Materion, i dynnu sylw aelodau'r pwyllgor hwnnw at benderfyniad y Pwyllgor Busnes.

### 4.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynghylch Rheoliadau (Diwygio) y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu nodyn ar gynnwys polisi'r rheoliadau hyn.

## 5 Y Cyfarfod Llawn

### 5.1 Busnes y Cynulliad cyn y diddymiad

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod trefniadau cyflwyno cyn ac yn ystod y diddymiad. Cytunodd y Pwyllgor ar y trefniadau a ganlyn:

- ni ellir derbyn dogfennau i'w gosod os ydynt yn dod i law ar ôl 18.00 (diwedd y diwrnod gwaith) ddydd Mawrth 5 Ebrill; ac
- y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig fydd 16.00 dydd Gwener 18 Mawrth.

### 5.2 Cyflwyno ar ôl yr etholiad

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod trefniadau cyflwyno yn syth ar ôl Etholiad y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor ar y trefniadau a ganlyn:

- bydd y Swyddfa Gyflwyno ar agor ar gyfer cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig, busnes brys, cynigion, gwelliannau i gynigion a datganiadau barn, yn ogystal â chofrestru buddiannau a gosod dogfennau, o ddydd Llun 9 Mai 2016;

- caiff cwestiynau ysgrifenedig eu cyhoeddi yn y ffordd arferol, a’r dyddiad olaf ar gyfer ateb cwestiynau ysgrifenedig fydd pum niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu cyflwyno; a

- bydd pob cwestiwn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno i’w ateb gan y Prif Weinidog, a fydd yn penderfynu pwy fydd yn ateb y cwestiwn hwnnw.

# 6 Y Rheolau Sefydlog

## 6.1 Cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 26

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i’r cynigion arfaethedig i Reolau Sefydlog a amlinellwyd yn y papur fel y’i drafftiwyd, gyda’r eithriadau a ganlyn:

- Y Cyfnod Adrodd – o ran y Rheolau Sefydlog 26.45, 26.45A, 26.45B a 26.46A newydd arfaethedig, roedd Paul Davies, Elin Jones ac Aled Roberts o blaid y newid arfaethedig, ond roedd y Gweinidog yn gwrthwynebu. Roedd y Gweinidog hefyd yn gwrthwynebu pob un o’r cyfaddawdau posibl a nodwyd yn y papur, ac felly nid oedd mwyafrif am unrhyw newid.

- Craffu ar gydymffurfio â hawliau’r Confensiwn – Rheol Sefydlog 26.6(xii) newydd arfaethedig (paragraffau 11-14). Roedd Paul Davies, Elin Jones ac Aled Roberts o blaid y newid arfaethedig, ond eglurodd y Gweinidog fod y Llywodraeth am gael mwy o amser i ystyried y goblygiadau cyn cytuno i unrhyw newid. Roedd y Gweinidog yn dymuno bod y newid hwn yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Busnes newydd yn gynnar yn ystod y Pumed Cynulliad; felly, nid oedd mwyafrif am newid ar hyn o bryd.

- "Atodlenni Keeling" – y Rheol Sefydlog 26.6C newydd arfaethedig (paragraffau 15-17). Roedd Paul Davies, Elin Jones ac Aled Roberts o blaid y newid arfaethedig fel y’i drafftiwyd, ond roedd y Gweinidog am weld bod y gofyniad ond yn berthnasol lle mae Biliau yn diwygio deddfwriaeth bresennol "yn sylweddol". Cytunodd y Rheolwyr Busnes arall i’r newid hwn fel cyfaddawd.

## 6.2 Cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog – Newidiadau amrywiol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i'r newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 18 a 30A.